Beth mae angen i lywodraethwyr ei wybod am CGA

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

Cyngor y Gweithlu Addysg yw rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio ymarferwyr addysg mewn ysgolion, addysg bellach, gwaith ieuenctid, ac addysg oedolion, a dysgu'n seiliedig ar waith. Mae'n bwysig eich bod chi, fel llywodraethwr, yn gwybod am y gofynion cyfreithiol penodol ar gyfer eich ysgol/coleg a'i gofrestreion.

Cofrestru

Mae'n ofyniad cyfreithiol, i'r cyflogwr a'r unigolyn, bod yr unigolyn wedi cofrestru yn y categori cofrestru cywir cyn iddo ymgymryd ag unrhyw waith (e.e. athro ysgol, cynorthwyydd addysgu). Dylai eich ysgol/coleg wirio bod eu staff wedi cofrestru gan ddefnyddio'u mynediad i'r gofrestr.

Rheoleiddio

Yn ogystal â chofrestru'r gweithlu addysg, rydym yn gyfrifol am ei reoleiddio hefyd. Gwnawn hyn trwy ein gwaith priodoldeb i ymarfer.

www.cga.cymru | gwybodaeth@cga.cymru

Atgyfeiriadau gan gyflogwyr

Os bydd cyflogwr yn diswyddo cofrestrai, neu os bydd cofrestrai yn gadael ei swydd (e.e. yn ymddiswyddo neu'n cytuno i setliad), ond y byddai'r cofrestrai wedi cael ei ddiswyddo pe na bai wedi gwneud yr uchod, mae dyletswydd gyfreithiol ar y cyflogwr i roi gwybod i ni. Mae mwy o wybodaeth am y broses atgyfeirio, a rhwymedigaethau cyflogwyr, i'w gweld ar wefan CGA.

Y Cod Ymarfer ac Ymddygiad Proffesiynol

Mae'n ofyniad statudol i CGA gyhoeddi Cod Ymarfer ac Ymddygiad Proffesiynol. Mae hwn yn amlinellu'r egwyddorion ymddygiad ac ymarfer da allweddol y mae disgwyl i gofrestreion gydymffurfio â nhw. Bwriedir iddo eu hysbysu, eu cefnogi a'u cyfeirio. Gall methu cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod godi amheuaeth am allu cofrestrai i barhau i ymarfer. Mae'n hanfodol bod eich ysgol/coleg yn atgoffa pob cofrestrai o'u dyletswyddau yn y Cod yn rheolaidd.

Canllawiau, adnoddau a gwasanaethau proffesiynol

Rydym yn darparu cyfres o wasanaethau proffesiynol i gefnogi ein cofrestreion a'n rhanddeiliaid ehangach (gan gynnwys llywodraethwyr). Rydym yn eich annog chi, a'r staff yn eich ysgol/coleg, i wneud y mwyaf o'r cynnig hwn sy'n cynnwys hyfforddiant a gweithdai, cyfres o ganllawiau ymarfer da, posteri'n amlygu'r Cod, digwyddiadau datblygiad proffesiynol, a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.

Arbed arian gydag Addysgwyr Cymru

Mae Addysgwyr Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddatblygir gan CGA, yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau i ysgolion/colegau. Mae'r porthol swyddi yn cynnwys mwy o swyddi gwag nag unrhyw ddarparwr arall ar gyfer addysg yng Nghymru. Yn fwy na hyn, bydd sefydliadau sy'n hysbysebu eu swyddi am ddim drwy eu hawdurdod lleol yn cael eu cynnwys yn awtomatig ar Addysgwyr Cymru hefyd. Arbedwch arian ac amser drwy hysbysebu gyda'ch ALl heddiw.

I ddysgu rhagor, ewch i wefan Addysgwyr Cymru neu gwahoddwch y tîm i gyfarfod.